# Taith y Dioddefwr drwy'r System Cyfiawnder Troseddol

## Anerchiad i'r gynhadledd

**gan**

**Winston Roddick CB QC**

**Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru**

**Dydd Llun 3ydd Mawrth 2014**

**Agoriad**

3. Bore da. Croeso i'r gynhadledd bwysig hon, a chredaf, y cyntaf o'i math yng Ngogledd Cymru. Mae'r gynhadledd hon am daith y dioddefwr drwy'r system cyfiawnder troseddol o'r eiliad y bydd ef neu hi yn dioddef trosedd.

4. Mae'n bleser gen i gael y cyfle i gymryd rhan yn y gynhadledd hon fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru. Fel y gwelwch o'ch rhaglen, yn annerch y gynhadledd ac yn ateb eich cwestiynau yn ystod sesiynau'r panel mae siaradwyr sy'n brofiadol yn eu meysydd priodol ac a fydd yn cynrychioli un o'r asiantaethau fydd yn tywys y dioddefwr ar ei daith neu ei thaith drwy'r system cyfiawnder troseddol.

**Pam y teitl hwn?**

5. Pam ddewisais y teitl "taith y dioddefwr drwy'r system cyfiawnder troseddol"? Mae yna nifer o resymau gan gynnwys yr angen i gydnabod y ffaith bod yna nifer o gamau unigol i brofiad y dioddefwr, gan ddechrau pan fydd y trosedd yn digwydd, darganfod a riportio'r trosedd i'r heddlu, yr heddlu'n ymchwilio i'r trosedd, euogfarnu gan Wasanaeth Erlyn y Goron a'r treial gan Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi a'r Farnwriaeth. Hefyd, fel mae'r rhestr yn nodi'n glir, efallai y byddant yn gamau ar wahân o ran bod gwahanol asiantaeth yn gyfrifol am bob cam, ond mae pob cam o'r daith ynghlwm ag o leiaf un rhan arall. Felly rwy'n gobeithio bod y teitl yn dweud wrthych nad ydyw'n gyfres o deithiau unigol

neu gamau unigol ond yn un daith ddi-dor ond bod gan bob cam efallai yrrwr gwahanol sy'n mynd â'r dioddefwr i ble mae angen mynd.

6. Wrth gwrs, rwy'n derbyn nad yw'r daith yn dod i ben ar ddiwedd yr achos llys. Mae taith y dioddefwr yn **dechrau** ar bwynt penodol, pan gaiff y trosedd ei gomisiynu, ond nid yw'n dod i ben **ar unrhyw bwynt penodol.** Bydd y dioddefwr wastad wedi dioddef y trosedd hwnnw. Efallai y bydd yr hyn y bydd y dioddefwr yn ei **gofio** yn pylu ymhen amser, efallai y bydd yr **effeithiau** yn lleihau ond dyna'r gorau y gall y dioddefwr ei obeithio. Felly mae'r daith yn parhau ymhell ar ôl i ran yr heddlu neu GEG yn y daith ddod i ben. Ar gyfer gweddill y daith, bydd y dioddefwr yn cael ei gefnogi gan un neu fwy o'n partneriaid eraill a gan aelodau'r teulu a chymdogion. Beth allaf i ddweud yn eithaf hyderus ydi os bydd unrhyw un o'r camau sy'n gysylltiedig â **rhan cyfiawnder troseddol o'r daith** yn methu, bydd hyn yn dwysau effeithiau'r trosedd ar y dioddefwr. Camau cyntaf y daith **yw'r camau mwyaf sensitif o'r holl daith**. Os bydd yr heddlu yn ymdrin â'r achwynydd yn wael neu'n annigonol, os bydd y llysoedd neu'r farnwriaeth yn ymdrin â'r tyst yn wael neu'n ansensitif yna gall hyn gael effaith andwyol ar y dioddefwr. Hoffwn ddweud wrth yr heddlu, GEG, GLlTEM a'r farnwriaeth - byddwch yn effro i ganlyniadau peidio â'i gael yn iawn. Mae'n ddyletswydd arnoch i gynnwys y risgiau hyn yn eich cofrestri risg.

**Cefnogi dioddefwyr**

7. Sut mae mesur yr angen am gefnogaeth? Roedd dogfen ymgynghorol y Weinyddiaeth Gyfiawnder, a arweiniodd at greu'r cod diwygiedig yn cynnwys hwn:

> "Crime affects different people in different ways. For some victims the impact may be practical and short lived. For others, such as victims of the most serious crimes, the impact can be distressing or life-changing. In around 80%1 of all cases, victims say they do not want any information, advice or support from the state or from other sources. But around 20% say they do, and the Government strongly believes victims should receive the assistance they need".

8.  Cyflwynwyd y cod gwreiddiol yn 2006 gyda'r nod o sefydlu safonau gwasanaeth cyson y gall dioddefwyr trosedd ddisgwyl eu cael gan asiantaethau cyfiawnder troseddol ar draws Cymru a Lloegr.

9.  Y llynedd, mi wnaeth y Llywodraeth cynnal ymgynghoriad o'r enw *'Getting it right for victims and witnesses'.*  Roedd yr ymgynghoriad hwn ymdrin â'r egwyddorion sydd y tu ôl i'r cod, a daethpwyd i'r canlyniad bod y cod a ddatblygwyd yn 2006 wedi dyddio ac **nad oedd yn canolbwyntio ddigon ar y dioddefwr.** Bellach mae gennym y cod diwygiedig.

10.  Mae wedi'i rannu i bedair rhan:

- Hawliau dioddefwyr
- Dyletswyddau asiantaethau cyfiawnder troseddol
- Hawliau plant a phobl ifanc dan 18
- Dyletswyddau asiantaethau cyfiawnder troseddol ar gyfer plant a phobl ifanc

11.  Bydd gan ddioddefwyr y troseddau mwyaf difrifol, dioddefwyr sy'n agored i niwed neu sydd wedi'u dychryn a dioddefwyr sy'n cael eu targedu fwyaf hawl i gael gwasanaeth o safon uwch, fydd yn galluogi asiantaethau cyfiawnder troseddol i dargedu eu hadnoddau i gefnogi'r rhai hynny sydd â'r anghenion mwyaf a darparu cymorth ychwanegol.

12.  Mae gan y cod diwygiedig 9 brif egwyddor a'r rhain ydi:

- Rhaid trin dioddefwyr gyda pharch ac urddas.
- Rhaid cymryd dioddefwyr, eu hadroddiadau trosedd a'u pryderon o ddifrif.
- Mae'n rhaid i deuluoedd sy'n galaru oherwydd llofruddiaeth neu ddynladdiad gael y cymorth maent ei angen.

- Mae’n rhaid i’r dioddefwyr gael mynediad i wybodaeth am eu hachos a hynny’n rhagweithiol.

- Dylai dioddefwyr sy’n gorfod mynychu’r llys fel tystion, ac sydd angen cymorth ymarferol er mwyn gallu gwneud hynny, gael y cymorth a’r gefnogaeth y maent ei hangen pan fyddant yn cyrraedd y llys.

- Mae’n rhaid i ddioddefwyr sydd eisiau llenwi Datganiad Personol Dioddefwr gael y cyfle i wneud hynny a dylent ddisgwyl iddo gael ei ystyried gan y llys.

- Bydd dioddefwyr sy’n agored i niwed neu sydd wedi’u dychryn yn cael eu cefnogi er mwyn iddynt deimlo’n ddiogel.

- Mae gan ddioddefwyr hawl i ofyn i gael cymryd rhan yn y broses cyfiawnder adferol a dylid darparu’r opsiwn hwn pan fydd ar gael ac yn amodol ar adnoddau.

- Dylai busnesau sydd wedi dioddef trosedd gael y wybodaeth a’r gefnogaeth y maent ei hangen.

13. Bydd y Cod diwygiedig hefyd yn ad-drefnu rhan o “Gyfarwyddeb Dioddefwyr” yr EU sy’n nodi’r lefel isaf o gefnogaeth sydd raid i aelodau’r wladwriaeth ei darparu i ddioddefwyr. Daw’r Gyfarwyddeb i rym yn Nhachwedd 2015.

14. Cyhoeddwyd siarter diwygiedig i dystion ochr yn ochr â’r cod diwygiedig. Mae’n hollbwysig bod yr heddlu ac asiantaethau cefnogi dioddefwyr yn ymgyfarwyddo eu hunain â hwn.

**Ymrwymiad fy swyddfa**

15. Rwyf wedi ymrwymo i gefnogi dioddefwyr trosedd. Rwyf wedi gwneud yr ymrwymiad hwnnw yn glir yn yr hyn yr wyf wedi’i ddweud yn fy nghynllun heddlu a throsedd, drwy gynnal y gynhadledd hon a drwy beth rwyf yn ei ddweud yma heddiw.

16**. Mae'r Cynllun** yn nodi y byddaf yn llunio cynlluniau ar gyfer comisiynu gwasanaethau dioddefwyr yn y dyfodol i ddarparu gwasanaethau cefnogi priodol i ddioddefwyr. Mae un o'r materion yr wyf yn ceisio ei ddatblygu yn deillio o bwynt sydd wedi'i wneud i mi yn bersonol gan nifer o aelodau'r cyhoedd sydd wedi dioddef trosedd sef nad ydynt yn cael gwybod digon am ddatblygiad yr ymchwiliad h.y. ydych chi wedi dod o'r hyd i'r eitemau a gafodd eu dwyn, neu a ydych chi wedi cyhuddo rhywun o gyflawni'r fyrgleriaeth yn ein cartref. Rwyf yn edrych i mewn i ddatblygu cynllun ar-lein fyddai'n galluogi dioddefwyr i gadw golwg ar ddatblygiad eu hachos - "Dilyn fy nhrosedd".

17. Bydd Dirprwy Brif Gwnstabl HGC, Mr Gareth Pritchard, yn dweud wrthych yn ystod ei gyflwyniad beth mae HGC wedi'i wneud a beth fydd yn ei wneud i hwyluso taith y dioddefwyr drwy'r system cyfiawnder troseddol.

**Y rheswm dros ddiwygio'r cod**

18. Cyn i mi symud ymlaen, hoffwn eich atgoffa mai'r rheswm pam cafodd y cod gwreiddiol ei ddiwygio ydi oherwydd nad oedd cod 2006 **yn canolbwyntio digon ar ddioddefwyr.** Os ydych yn gysylltiedig â dioddefwr sydd â thystiolaeth sy'n bwysig iawn i achos yr erlyniad a bod yr erlyniad a'r heddlu yn dibynnu ar gefnogaeth barhaus y dioddefwr, pan fydd achos yn cael ei dynnu oddi ar y rhestr ar gais yr erlyniad neu fentergarwch GLlTEM ar y funud olaf, gofynnwch i chi'ch hun ar beth oedd y cais i dynnu'r achos oddi ar y rhestr yn canolbwyntio arno - a oedd ar fuddion y dioddefwr neu rai GEG a'r llys? Gofynnwch i chi'ch hun, pa wahaniaeth, os o gwbwl, wnaeth y cod diwygiedig i'r penderfyniad hwnnw?

**Gweithio mewn partneriaeth**

19. Mae yna, fel rwyf eisoes wedi crybwyll, nifer o asiantaethau, grwpiau, pwyllgorau a chyrff eraill sy'n canolbwyntio ar ddelio ag achosion a chanlyniadau trosedd ac yn benodol gyda dioddefwyr trosedd, ond mae'n hollbwysig eu bod yn gweithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth a bod pob partneriaeth yn arddangos parodrwydd i dderbyn pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth. Nid oes yr un lle yn y system cyfiawnder troseddol ble mae'r egwyddor hon yn fwy pwysig nag wrth

ymdrin â dioddefwyr. Pan fydd un asiantaeth yn colli golwg o'r egwyddor hon, mae'r holl bartneriaeth yn tanberfformio ac mae'r dioddefwyr yn dioddef heb fod angen.

20 Rwyf wedi arddangos fy ymroddiad i'r egwyddor o weithio mewn partneriaeth a'i bwysigrwydd mewn dwy brif ffordd. Yn gyntaf, er mai dim ond pedwar amcanion heddlu a throsedd sydd yn fy Nghynllun Heddlu a Throsedd, mae gweithio mewn partneriaeth yn un ohonynt.

21. Ar y mater hwnnw, beth rwy'n dweud yn y Cynllun ydi:

> "Nid dim ond yr heddlu sy'n gweithio tuag at atal trosedd, darparu ymatebion priodol a lleihau niwed a'r risg o niwed. Mae gweithio mewn partneriaeth yn galluogi effeithiau a gwahaniaethau hirdymor i gael eu gwneud i'n cymunedau. Byddaf yn gweithio gyda phartneriaid drwy Fwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, y Bwrdd Cymunedau Diogelach, Bwrdd Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau a'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol er mwyn adnabod ffyrdd o gydweithio'n fwy effeithiol yn yr amseroedd ariannol heriol hyn. Bydd hyn yn fy nghynorthwyo gyda fy nghyfrifoldebau ehangach i wella diogelwch cymunedol a gwella'r ddarpariaeth o gyfiawnder troseddol yn ein hardal ac yn fy ngalluogi i sicrhau bod yr holl asiantaethau a chyrff perthnasol yn cyflawni eu dyletswyddau yn y cyswllt hwn."

**Enghreifftiau diweddar o'r anawsterau sy'n wynebu dioddefwyr a'r llysoedd.**

22. Mae yna nifer o fuddion o fewn y system cyfiawnder troseddol sy'n cystadlu'n gryf yn erbyn ei gilydd. I grybwyll dim ond tri ohonynt, y cyntaf ydi buddion y diffynnydd ac mae cyfraith Cymru a Lloegr yn, a dylai ffafrio pob un o'i ragdybiaethau. Yna mae gennych fuddion y tyst a hebddo/i ni ellir cael cyfiawnder ond mae'n ddiamddiffyn oherwydd ei anwybodaeth o'r broses gyfiawnder troseddol. Y trydydd ydi buddion y wasg sy'n bwysig iawn i wladwriaeth rydd a democrataidd. Gall fod yn anodd cydbwyso'r rhain os ydych yn farnwr ond mae'r gyfraith yn eithaf clir a gobeithio y bydd yn parhau i fod fel hyn am amser maith. Y prif fudd ydi y dylai'r treial fod yn deg i'r diffynnydd ac y dylai'r erlyniad brofi'r achos. Mae rhagdybio bod unigolyn yn ddieuog yn hollbwysig i ansawdd ein democratiaeth. Nid oes dim o hyn yn golygu na ddylai'r treial fod yn deg i dystion yr erlyniad a'r

amddiffyniad ac mae yna reolau clir i arwain y llysoedd a'r eiriolwyr ar hyn. Mae bod yn dyst i'r erlyniad yn ddyletswydd sifil ond mae'n un sy'n cymryd llawer o ddewrder. Nid wyf yn cyfeirio at y dewrder y mae'r dioddefwr ei angen i wneud cwyn i'r heddlu ei fod ef neu hi wedi dioddef trosedd ond beth mae'n ei gymryd i fynd trwy'r broses o'r dechrau i'r diwedd fel tyst ynghyd â gwneud y gŵyn. Rwy'n amau a fyddai Nigella Lawson byth eto yn gwirfoddoli i gyflawni'r ddyletswydd sifil honno. Yn ystod y treial, datblygodd y llys i fod "yn syrcas ddifyr i'r cyfryngau" a daeth ei dibynadwyedd fel tyst a oedd yn dweud y gwir yn fater o bwys ac roedd rhaid i hyn gael ei brofi mewn llys agored. Roedd yr achos hwn yn un anarferol, ond mae'n dangos yr angen i'r buddion hyn gystadlu yn erbyn ei gilydd. Mae dyletswydd arnom i egluro'r dyletswyddau hyn i'r dioddefwyr er mwyn iddynt ddod i'w deall mor dda ac y gallant a dod i'w derbyn fel y pris mae angen i ni ei dalu i sicrhau bod yr euog yn cael eu dedfrydu ac er mwyn sicrhau diogelwch ein cymunedau a'u pobl.

**Casgliad**

23. Bydd gwaith a dylanwad y partneriaethau o ran darparu cefnogaeth yn cael ei gryfhau gan benodiad Comisiynydd y Dioddefwyr a drwy leoleiddio gwasanaethau cefnogi dioddefwyr o Fawrth 2015 ymlaen pan fyddwn ni yng Ngogledd Cymru yn gallu cynllunio a gweithredu gwasanaeth sy'n gallu diwallu anghenion ac amgylchiadau Gogledd Cymru a'i phobl yn well.

24. Fy nod fel Comisiynydd ydi sicrhau diogelwch unigolion pan fyddant adref ac mewn llefydd cyhoeddus. Diogelwch y bobl ydi fy mhrif flaenoriaeth. Mae atal trosedd yn hanfodol. Diolch i ymdrechion yr heddlu a'i bartneriaid yn y maes diogelu pobl gan gynnwys nifer o'r asiantaethau sy'n cael eu cynrychioli yma heddiw, mae Gogledd Cymru yn cael ei adnabod fel lle diogel i fyw. Ond mae dal gormod o drosedd a dioddefwyr trosedd a tra bydd hynny'n bodoli mae gennym wir ddyletswydd i gefnogi dioddefwyr y troseddau hynny.

Winston Roddick QC 3 Mawrth 2014